**Cyngor Sir Dddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Trwyddedu , Dydd Mercher, 24 Medi 2014**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Y Cynghorwyr Hugh Irving ac Arwel Roberts |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Datganodd y Cynghorydd Cefyn Williams gysylltiad personol yn Eitem 11 ar y Rhaglen - Cais am Drwydded i Yrru Cerbydau Hurio Preifat gan ei fod yn adnabod yr ymgeisydd dan sylw. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Ni chafwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF | ***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2014 fel cofnod cywir.* |
| **5** | POLISI A GWEITHDREFN PWYNTIAU COSB DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG | ***PENDERFYNWYD:-***<br><br>*(a) cymeradwyo'r Polisi a Gweithdrefn Pwyntiau Cosb diwygiedig fel y manylwyd yn Atodiad A i'r adroddiad, i gymryd lle'r Cynllun Pwyntiau Cosb presennol sydd yn y "Llyfr Glas" – Amodau Trwyddedu Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat y Cyngor, a*<br><br>*(b) bod y cynllun yn cael ei weithredu o 1 Tachwedd 2014, gyda chyfnod gras o un mis cyn gorfodi'r cynllun.* |
| **6** | IS-DDEDDFAU CERBYDAU HACNI DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG | ***PENDERFYNWYD*** *bod Model o Is-ddeddfau arfaethedig yr Adran Drafnidiaeth, fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad, yn cael ei gefnogi a bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i ddechrau ymgynghori â'r holl berchnogion cerbydau hacni a gyrwyr trwyddedig.* |
| **7** | COD YMDDYGIAD DA | ***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar sylwadau aelodau, bod Cod Ymddygiad Da* |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | ARFAETHEDIG AR GYFER CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | *arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad, yn cael ei gefnogi a bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i ddechrau ymgynghori ar hynny.* |
| **8** | COD GWISG DIWYGIEDIG ARFAETHEDIG AR GYFER CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD** bod y Cod Gwisg Diwygiedig Arfaethedig ar gyfer Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad, yn cael ei gefnogi a bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol ar hynny.* |
| **9** | RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU 2014/15 | ***PENDERFYNWYD** cymeradwyo Rhaglen Gwaith y Pwyllgor Trwyddedu.* |
| **10** | GOLLYNGIAD O OFYNIAD I ARDDANGOS PLATIAU RHIF CERBYD HURIO PREIFAT | ***PENDERFYNWYD:-***<br><br>*(a) bod y cais i ollwng y gofyniad i arddangos platiau trwydded cerbydau hurio preifat a sticeri drws yn cael ei gymeradwyo, yn amodol ar yr amodau fel y'u nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad, a*<br><br>*(b) bod swyddogion yn cael eu hawdurdodi i ddiwygio rhaglen gwaith y pwyllgor i gynnwys polisi drafft ynghylch Eithrio Platiau Trwydded Cerbydau Hurio Preifat i gael ei drefnu mewn cyfarfod yn y dyfodol.* |
| **11** | CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HURIO PREIFAT - YMGEISYDD RHIF 051260 | ***PENDERFYNWYD** bod y cais am drwydded i yrru cerbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 051260 yn cael ei wrthod.* |
| **12** | ADOLYGIAD O DRWYDDED I | ***PENDERFYNWYD** bod rhybudd ffurfiol yn cael ei roi i Yrrwr Rhif 00327 ynghylch ei* |

| **Agenda Item No** | **Topic** | **Decision** |
|---|---|---|
| | YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 00327 | *ymddygiad yn y dyfodol.* |
| **13** | ADOLYGIAD O DRWYDDED I YRRU CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - GYRRWR RHIF 045728 | ***PENDERFYNWYD** diddymu Trwydded Yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Gyrrwr Rhif 045728 ar sail diogelwch y cyhoedd.* |